DEDDF PRIFFYRDD 1980

Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus
(Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 46 yng Nghymuned Offa (Broughton cynt))
Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2004

Ar 19 Ionawr 2005, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y gorchymyn uchod a wnaed dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Effaith y gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw gwyro'r llwybr troed cyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 1 yr Atodiad i'r Rhybudd hwn i linell a ddisgrifir yn Rhan 2 yr Atodiad i'r Rhybudd hwn.

Mae copi o'r gorchymyn fel y'i cadarnhawyd a map y gorchymyn wedi eu gosod yn Neuadd y Dref, Wrecsam a gellir eu gweld yno yn ystod oriau swyddfa arferol. Gellir cael copïau o'r gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam.

Daw'r gorchymyn i rym ar 20 Ionawr 2005 ond, os yw unrhyw un sy'n tybio iddo gael cam gan y gorchymyn yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyn dan y ddeddf, fel y'i diwygiwyd, neu unrhyw reoliad a wnaed gan y ddeddf, gall ymgeisio i'r Uchel Lys, dan baragraff 2 o Atodiad 2 y ddeddf fel sy'n gymwys gan baragraff 5 o Atodiad 6 y ddeddf, o fewn 6 wythnos o 20 Ionawr 2005.

ATODIAD

Rhan 1
Disgrifiad o leoliad y llwybr neu ffordd presennol

Y darn hwnnw o lwybr troed cyhoeddus rhif 46 yng nghymuned Offa (Broughton cynt) ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o bwynt ger cylchffordd Ffordd yr Wyddgrug/A483 ar gyfeirnod grid 33232 35123 i gyfeiriad de-dde-orllewinol yn gyffredinol am oddeutu 213 metr i ymyl y ffordd ar Ffordd y Bers ar gyfeirnod grid 33225 35103, o led amhenodol, fel a ddangosir gan linell ddu dywyll rhwng pwyntiau A-B ar y map sydd ynghlwm wrth y rhybudd hwn.

Rhan 2
Disgrifiad o leoliad y llwybr neu ffordd newydd

Llwybr troed cyhoeddus, hynny yw, llwybr y mae gan y cyhoedd hawl tramwy ar droed yn unig, 1.8 metr o led, o bwynt ger cylchfan Ffordd yr Wyddgrug/A483 ar gyfeirnod grid 33232 35123 i gyfeiriad de-dde-orllewinol yn gyffredinol am oddeutu 221 metr ar hyd cefn yr unedau manwerthu i bwynt ar gyfeirnod grid 33222 35103, yna i gyfeiriad dwyrain-dde-ddwyreiniol am oddeutu 24 metr i ymyl y ffordd ar Ffordd y Bers ar gyfeirnod grid 33224 35102, cyfanswm o 245 metr, fel a ddangosir gan linell ddu doredig rhwng pwyntiau A-C-D ar y map sydd ynghlwm wrth y rhybudd hwn.

Dyddiedig yr 20fed diwrnod hwn o Ionawr 2005

Trevor Coxon
Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth
Neuadd y Dref
Blwch SP 1284
Wrecsam
LL11 1WF